ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mawrth 2018

Cwrs Sgiliau Blwyddyn 10

Mae saith o ddigyblion blwyddyn 10, sy'n dilyn y cwrs Sgiliau Gwaith, wedi bod yn helpu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros yr wythnosau diwethaf. Maent wedi bod yn eu helpu i gasglu sbwriel, llenwi tyllau mewn meysydd parcio a chlirio llwybrau cerdded cyhoeddus. Maent wedi bod ar lwybrau cerdded yng Nganllwyd a lan y môr yn Llanbedrog.

Ar y 23ain o Chwefror daeth asiantaethau allanol megis yr Heddlu, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaethau Trais yn y Cartref, Safonau Bwyd a Diogelwch ffyrdd i wneud gweithdai gyda Blwyddyn 9.

Fel rhan o'r cynllun anwytho o'r Cynradd i'r Uwchradd mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn ymweld â'r ysgolion cynradd dalgylch i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 6. Hyd yn hyn maent wedi bod yn Ysgol Eifion Wyn, Beddgelert a Borth y Gest.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Lleucu Lane a Huw Evens ar eu llwyddiant diweddar yn y Gystadleuaeth Trawsgwlad yn Nolgellau. Bydd y ddau yn mynd ymlaen i Aberhonddu i gynrychioli Eryri yng Nghystadleuaeth Cymru ym mis Mai. Da iawn chi.

Llongyfarchiadau i'r Tîm Hoci a ddaeth yn 3ydd yn Nhwrnament De Gwynedd yn ddiweddar.

	Llongyfarchiadau mawr i Elin Evens, Carys Preedy a Freya Foster am ennill y gystadleuaeth Bowldro De Gwynedd i flwyddyn 7 ac 8.
	Llongyfarchiadau mawr i bechgyn Bl. 10 ar guro Ysgol Glan y Môr 3 gôl i 2 mewn gêm pêl droed yn ddiweddar.
	Yn Nhwrnament Pêl droed Meirion Dwyfor cafodd bechgyn Bl.7 lwyddiant mawr a byddant nawr yn mynd ymlaen i chwarae yn Nhwrnament Eryri. Llongyfarchiadau i chi hogia'.